



Albert Edward
Llys Tywysog Cymru
Rhodfa Penylan
Porthcawl
Morgannwg Ganol
CF36 3LY
Ffôn: 01656 785311
E-bost: albertedward@rmbi.org.uk
www.rmbi.org.uk
facebook.com/thermbi
twitter.com/thermbi

RMBI Care Co.
60 Great Queen Street,
Llundain WC2B 5AZ

Mae Llys Albert Edward Tywysog Cymru yn cael ei rooleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car CF48 1UZ Ffôn: 0300 7900 126

Mae RMBI Care Co. yn rhan o'r Masonic Charitable Foundation.
Am fwy o wybodaeth, ewch i www.mcf.org.uk
Rhif cofrestru'r elusen 1163245 | Rhif y cwmni 1293566

Cyhoeddwyd: Hydref 2018

Llys Albert Edward Tywysog Cymru

Morgannwg Ganol



Mae gofalu'n
ffordd o fyw i ni

www.rmbi.org.uk





Cartref diddos

Mewn saith acer o erddi wedi'u tirlunio, mae Llys Albert Edward Tywysog Cymru yn nhref lan môr Porthcawl ar arfordir de Cymru. Mae'r awyrgylch cynnes a chroesawus yn y Cartref yn gwneud ichi deimlo'n gartrefol ar unwaith. Rydym yn darparu gofal preswyl, nysio a chymorth dementia ar gyfer hyd at 76 o breswylwyr.

Rydym eisiau ichi deimlo'n gartrefol gyda ni. Yma yn Llys Albert Edward Tywysog Cymru, cewch ystafell wely a dodrefn a digon o le ynddi ac ystafell ymolchi en-suite, a thîm arbenigol i gefnogi eich anghenion gofal.

Mae ein cwrt mewnol yn cynnwys gardd bersawrus, pwll pysgod, ardal ar thema glan môr a lle tawel i eistedd a mwynhau aroglau'r blodau. Mae'r preswylwyr wrth eu boddau yn yr ardd synhwyraidd sydd wedi'i dylunio i gyffroi'r pum synnwyr.

Gan fod salon harddwch ar y safle, gallwch drefnu trip i'r siop trin gwallt neu fwynhau triniaeth harddwch ar adeg sy'n hwylus i chi.





Yr hyn rydym yn ei gynnig

Nid yw symud i gartref gofal yn golygu gollwng gafael ar eich annibyniaeth. Rydym yma i'ch helpu i fyw'r bywyd rydych chi'n ei ddymuno gan wybod ar yr un pryd fod gymorth ar gael os oes angen.

Bwyd cartref ffres

Mae gennym gegin gynhwysfawr gyda thîm arlwygo a chogyddion ar y safle. Mae ein bwydlen amrywiol yn newid yn gyson er mwyn rhoi amrywiaeth o ddewis a deiet cytbwys i chi.

Mae yma rywbeth i bawb

Credwn fod cadw'n egniol, yn feddyliol ac yn gorfforol, yn caniatáu i'n preswylwyr gael lles ac ystyr yn eu bywydau.

Rydym yn darparu gweithgareddau rheolaidd yn Llys Albert Edward Tywysog Cymru, o arddio

a phaentio i ddiwrnodau allan o'r Cartref ac ymarferion corfforol ysgafn. Gallwn hefyd eich cefnogi i barhau i fwynhau eich hobiau a'ch diddordebau, ac rydym yn hyderus fod gennym rywbeth sy'n gwbl addas i chi.

Gwahodd teulu a ffrindiau

Mae nifer o fannau y tu mewn ac yn yr awyr agored lle gallwch gynnal digwyddiadau gyda'ch teulu a'ch ffrindiau. Gallwn helpu i drefnu partïon preifat neu achlysuron arbennig yn y Cartref os ydych yn dymuno.

"Mae'n lle gwyh i fy mam neu i unrhyw un arall fyw ynddo."



Cynllun sy'n addas i chi

O olchi dillad i wasanaethau glanhau a'r siop ar ein safle, rydym yma i wneud bywyd yn gyfforddus ac yn bleserus ichi.

Rydym yn trin pawb fel unigolion a byddwn yn gweithio gyda chi i greu cynllun gofal sy'n diwallu eich anghenion.





"Mae'r gofal a'r llety a ddarperir yn llawer iawn gwell na'r hyn rwyf i wedi'i weld yn unrhyw le arall. Rydw i'n hollol fodlon bod fy mam yn byw yno."

Diwylliant, Gwerthoedd a Gweledigaeth

Mae Llys Albert Edward Tywysog Cymru yn cael ei weithredu a'i reoli gan y Royal Masonic Benevolent Institution Care Company (RMBI Care Co.). Mae'n cael ei reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru hefyd.

Mae gofalu'n ffordd o fyw i ni. Dyma ein gwerthoedd fel sefydliad: **Caredig**, **Cefnogol** a **Dibynadwy**. Ein nod yw dilyn y gwerthoedd hyn, a gellir gweld hynny ymhob rhan o'n gwaith ac yn y modd rydym yn trin pobl eraill.

Rydym yn Garedig: Rydym yn garedig wrth breswylwyr, eu teuluoedd ac ein gilydd oherwydd rydym yn frwd dros ein dull o ddarparu gofal. Rydym yn credu dylai pawb gael eu trin ag urddas a bod eu dymuniadau'n cael eu parchu bob amser.

Rydym yn Gefnogol: Rydym yma i helpu a bod yn gefnogol yn ein hagwedd at ofal, gan roi'r preswylwyr wrth galon popeth rydym yn ei wneud. Rydym yn trin pob person fel unigolyn, gan adnabod y pethau sy'n bwysig iddynt a gweithio fel tîm i sicrhau hyn.

Rydym yn Ddibynadwy: Rydym yn agored, yn onest ac yn ddibynadwy wrth ddarparu gofal i Seiri Rhyddion, eu dibynyddion a'r gymuned ehangach. Rydym wedi bod yn cefnogi pobl hŷn am dros 170 o flynyddoedd ac yn gweithio'n agos gyda'n preswylwyr, eu teuluoedd ac ein gilydd i gynnig amgylchedd diogel.



Mathau o ofal

Gall penderfynu symud i gartref gofal fod yn beth anodd - dyna pam rydym ni yma i'ch cefnogi bob cam o'r ffordd.

Cymorth Dementia

Mae Llys Tywysog Cymru Albert Edward yn cynnig gwasanaeth cymorth dementia ar gyfer hyd at 13 o bobl.

Credwn y dylai pobl sy'n byw â dementia gael cymorth i fyw bywyd egniol a llawn. Mae ein staff wedi cael eu hyfforddi i ddarparu cymorth unigol a phersonol; mae rhoi'r unigolyn wrth galon popeth rydym yn ei wneud yn adlewyrchu ein gwerthoedd craidd.

Yn 2017, fe wnaethom ymuno â Chymdeithas Alzheimer's i gefnogi ei Hymgyrch Cyfeillion Dementia.

Rydym yn aelodau o'r Gynghrair Gweithredu dros Dementia hefyd, sy'n cysylltu dros 150 o sefydliadau sy'n gweithio i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n byw â dementia. Gan weithio ar draws cymunedau a sefydliadau eraill, rydym yn anelu at rannu ymarfer da ac at ddysgu mwy am fodelau newydd o ofal a chymorth.

Gofal preswyl

Darperir gofal preswyl ar gyfer pobl nad ydynt yn gallu byw gartref mwyach, hyd yn oed gyda chefnogaeth gwasanaethau gofal yn y cartref. Gall gofal preswyl helpu pobl i barhau i fyw'n ddiogel, a bydd eich teulu'n dawel eu meddwl o wybod eich bod mewn amgylchedd cefnogol. Gallwn gynnig llety i hyd at 43 o bobl mewn gofal preswyl.





Gofal nyrsio

Mae ein nyrsys wedi cael eu hyfforddi i ddarparu lefel fwy arbenigol o gefnogaeth, sy'n hybu iechyd a lles. Mae'r math hwn o ofal ar gyfer unrhyw un sydd angen cymorth 24 awr gan nyrs gofrestredig. Gallwn gefnogi hyd at 20 o bobl gyda gofal nyrsio.

Arhosiad byr a gofal seibiant

Mae arhosiad byr, gan gynnwys gofal seibiant, ar gael i bobl sy'n derbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain. Maent yn rhoi cyfle i deuluoedd neu ofalwyr gael hoe o ofalu am rywun annwyl.

Gall hyn fod yn opsiwn da os yw rhywun yn gwella ar ôl bod yn yr ysbyty, neu am brofi sut beth yw bywyd yn ein cartref gofal.

Gofal lliniarol

Mae gofalu am rywun yn ystod diwrnodau olaf ei fywyd yn gofyn am ddealltwriaeth a sgiliau arbenigol. Rydym wedi ymrwymo i wneud yn siŵr fod ein gofal diwedd oes yn parchu ac yn cadw urddas yr unigolyn ac rydym yma i'ch cefnogi drwy gydol yr amser anodd hwn.



"Mae'r cartref wedi bod yn hyblyg iawn ac
wedi deall anghenion fy ffrind."

Sut mae gwneud cais

Sut mae gwneud cais

Os hoffech wneud cais i fyw yn Llys Albert Edward Tywysog Cymru, cysylltwch â ni ar 01656 785311 neu anfonwch neges i albertedward@rmbi.org.uk. Trowch at y **Canllaw Pwy Sy'n Gymwys** ar ein gwefan i gael manylion am y meini prawf cymhwysedd.

Ariannu eich gofal

Mae ein gwasanaethau ar gael i bobl gyda chyllid preifat neu gyhoeddus. Ewch i www.payingforcare.org i gael gwybod mwy am y dewisiadau o ran talu am ofal neu cysylltwch â Rheolwr y Cartref i gael cyngor.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Os ydych chi'n barod i gymryd y cam i symud i'n Cartref, cynhelir asesiad i'n helpu ni i ddeall eich anghenion a sut gallwn eich cefnogi. Os oes lle ar gael a'n bod ni'n gallu diwallu eich anghenion gofal, byddwn yn cynnig ystafell ichi.

Byddwn yn dweud wrthyich beth yw'r ffi wythnosol cyn ichi symud i'r Cartref. Mae'r ffi'n cynnwys llety, prydau bwyd a gofal. Gall y gost newid wrth i'ch anghenion newid. Rydym hefyd yn cynnig arosiadau byr er mwyn ichi gael profi bywyd yn y Cartref cyn ichi benderfynu symud i mewn. Cysylltwch â ni os hoffech wybod mwy.

Os ydych yn dymuno cael deunyddiau yn Gymraeg, cysylltwch â'r Brif Swyddfa yn marketing@rmbi.org.uk neu ffoniwch 020 7596 2400.

